

7/3/22

Annwyl Riant / Gofalwr,

Gweithgarwch casglu data (2022): Plant y Lluoedd arfog

Yn Ysgol Bryn Tawe rydym wedi ymrwmo i ddeall anghenion a chefnogi ein dysgwyr gyda'u profiad unigryw drwy gydol eu haddysg. Un grŵp rydym yn anelu eu chefnogi yw plant personél y Lluoedd Arfog.

Mae ein hysgol yn cydnabod y gallai fod angen cefnogaeth ar blant y Lluoedd Arfog, ar ryw adeg yn eu bywydau, gyda'u dysgu/ setlo i sefyllfaoedd newydd ac / neu iechyd meddwl a lles, o ganlyniad i'w hamgylchiadau unigryw. Gallai hyn fod yn sgil symudedd, lleoli, trawsnewid, addysg ac / neu anghenion cymdeithasol.

Mae rhan o'ch cefnogaeth i ymrwymiad Cyngor Abertawe i Gyfamod y Lluoedd Arfog yn cynnwys nodi Plant y Lluoedd Arfog fel y gallwn eu chefnogi'n briodol.



Cenhadaeth SSCE Cymru yw darparu'r cymorth addysg gorau posibl i blant y lluoedd arfog yng Nghymru. Mae SSCE Cymru yn gweithio'n gydweithredol gyda sefydliadau ar draws y DU i ffurfio sail tystiolaeth sy'n effeithio ar bolisi a systemau. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu cyfres o adnoddau i gefnogi gweithwyr addysg proffesiynol a theluoedd y Lluoedd Arfog ar draws Cymru, gan gynnwys pecynnau gwaith a chyfarpar, enghreifftiau o arferion da, newyddlenni, canllawiau ariannu a chyfeirlyfr o gefnogaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.SSCECymru.co.uk

Drwy nodi'r nifer o blant y Lluoedd Arfog ym Mryn Tawe, gallwn nodi eu hanghenion yn rhagweithiol, gan ddarparu cefnogaeth a chael mynediad at gyllid os oes angen. Helpwch ni i gael dealltwriaeth o gymuned y Lluoedd Arfog drwy lenwi'r ffurflen isod erbyn yr **12fed o Fawrth 2022**. Rydym yn annog yr holl deuluoedd i ddychwelyd y ffurflen wedi ei llenwi, i nodi a ydynt yn perthyn i un o deuluoedd y Lluoedd Arfog ai peidio.

Yna gallwn rannu'r nifer llawn o blant y Lluoedd Arfog sydd wedi'u cofrestru yn ein hysgol gyda [SSCE Cymru](http://SSCECymru). Yn unol â chanllawiau GDPR, bydd holl enwau a nodweddion sy'n caniatáu adnabod plant yn parhau i fod yn gyfrinachol.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k4Xi0oljCzdlo87tDJVKj3BURTBiUzNXWUVNOUIFMVdLUzQ0T1dDM0w3My4u

Cofion cynnes

Mark Bridgens
(Pennaeth Cynorthwyol)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

